ECAD5016C - Dyfnhau arfer BA2

Darllen a Llenyddiaeth Plant

Cyw
Cywioci - Darllen

Trosolwg y modwl

Dyddiad	Cynnwys
Dydd Mercher 22/4	Dysgu darllen – Datgloi'r geiriau, datgloi'r byd.
Dydd Gwener 24/4	Dyna chi dric ac adnoddau di-ri!
Dydd Llun 27/4	Darllen ac ADY
Dydd Mercher 29/4	Troi tudalen neu Sgrolio sgrin?
Dydd Gwener 1/5	Heriau darllen: Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud?
Dydd Mercher 6/5	Llenyddiaeth wrth Wraidd Cwricwlwm

Manyleb asesu

Aseiniad

Manyleb asesu cyflwyniad

MANYLEB ASESU LEFEL 5

Enw'r myfyriwr:		**Rhif Adnabod y myfyriwr:**	
Rhaglen:	**BA Addysg Cynradd gyda SAC**		
Modwl:	**Dyfnhau Arfer – Darllen a llenyddiaeth plant**		
Cod y modwl:	**ECAD5016C**	**Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):**	
Darlithydd:	**Jayne Morgan**	**Gwiriwr Mewnol:**	**Menna Davies**
Teitl yr Aseiniad:	**CYFNODOLYN – cysylltu enghreifftiau o lenyddiaeth plant â fframweithiau damcaniaethol a phrofiad ymarferol.**	**Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth):**	**1375 o eiriau**
Dyddiad cyflwyno:	**13.05.26** **23:59**	**Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:**	**04.06.26** **16:00**
Dull cyflwyno:	Lle bo'n ymarferol ac yn bosibl, rhaid cyflwyno pob asesiad ysgrifenedig drwy Turnitin, oni nodir yn wahanol gan y Darlithydd. (PEIDIWCH â rhoi'r fanyleb asesu hon i mewn i Turnitin neu bydd yn cyfateb i lawer o bethau tebyg yng nghyflwyniadau myfyrwyr eraill.) **Dull cyflwyno arall (os ydy'n berthnasol):**		

MANYLEB ASESU LEFEL 5

Enw'r myfyriwr:		**Rhif Adnabod y myfyriwr:**	
Rhaglen:	**BA Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig**		
Modwl:	**Dyfnhau Arfer : Darllen a Llenyddiaeth Plant**		
Cod y modwl:	**ECAD5016C**	**Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):**	**50%**
Darlithydd:	**Jayne Morgan**	**Gwiriwr Mewnol:**	**Menna Davies**
Teitl yr Aseiniad:	**CYFLWYNIAD – Trafodaeth feirniadol ar ddull ysgol gyfan o ymdrin â darllen a'r dulliau addysgol sy'n cefnogi defnydd effeithiol o lenyddiaeth plant.**	**Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth):**	**Cyflwyniad 10 munud**
Dyddiad cyflwyno:	**13.05.26** **23:59**	**Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:**	**04.06.26** **16:00**
Dull cyflwyno:	Lle bo'n ymarferol ac yn bosibl, rhaid cyflwyno pob asesiad ysgrifenedig drwy Turnitin, oni nodir yn wahanol gan y Darlithydd. (PEIDIWCH â rhoi'r fanyleb asesu hon i mewn i Turnitin neu bydd yn cyfateb i lawer o bethau tebyg yng nghyflwyniadau myfyrwyr eraill.)		

Ydy darllen yn bwysig?

https://www.itv.com/news/2024-09-25/inside-the-reading-crisis-leaving-thousands-of-children-in-wales-unable-to-read

Gwnewch nodyn o'r geiriau allweddol!

Beth yw taith y dysgwr i ddarllen?



Cwricwlwm i Gymru

Mae'r adran ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu o'r Cwricwlwm 2022 wedi ei rannu i bedwar rhan.

Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

1	2	3	4
Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.	Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.	Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu	Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

Ieithoedd, Llafar a Chyfathrebu

MAES DYSGU A PHROFIAD

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Canllawiau i helpu ysgolion a lleoliadau i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain, gan alluogi dysgwyr i ddatblygu o ran y pedwar diben.

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. **Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig**
3. **Egwyddorion cynnydd**
4. **Disgrifiadau dysgu**
5. **Cynllunio eich cwricwlwm**

Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

Mae llenyddiaeth yn ehangu gorwelion. Yn ei holl ffurfiau, gall ein hysbrydoli a'n cymell, gan ein helpu hefyd i ddysgu mwy am iaith a chyfathrebu.

Bydd y Maes hwn yn cynnig profiadau llenyddol i ddysgwyr fydd yn ennyn eu diddordeb a'u dychymyg fel gwrandawyr, gwylwyr, darllenwyr, storïwyr a llenorion. Bydd y profiadau hyn yn eu cefnogi i werthfawrogi crefft llenorion a chrewyr yn ogystal â meithrin eu sgiliau creadigol eu hunain. Byddan nhw'n cael eu hannog i brofi ac ymateb i amrywiaeth o lenyddiaeth amrywiol sy'n cynnig mewnwelediad i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru yn ogystal â'r byd ehangach. Trwy hyn, wrth i'w dealltwriaeth o'u credoau, diwylliannau a'u profiadau eu hunain a phobl eraill gynyddu, gall dysgwyr ddatblygu eu gallu i ddangos empathi. Yn ei dro, gall hyn gyfrannu at eu lles emosiynol a meddyliol. Gyda'i gilydd, nod y profiadau llenyddol hyn yw tanio dychymyg a chreadigrwydd dysgwyr a bod o gymorth i feithrin cariad gydol oes tuag at lenyddiaeth.

Darllen beth?

Mae llenyddiaeth yn ehangu gorwelion. Yn ei holl ffurfiau, gall ein hy
ddysgu ... am iaith a chyfathrebu.

(Literature) testunau llafar, ysgrifenedig a gweledol sy'n deillio o'r dychymyg creadigol megis barddoniaeth, drama, gwaith ffuglen a ffeithiol o wahanol gyfnodau a diwylliannau. Dylai'r gwaith fod yn ddigon cyfoethog a sylweddol i ennyn diddordeb dysgwyr yn ddeallusol ac yn emosiynol, i'w hannog i gael eu hysbrydoli, eu hysgogi a'u newid, ac i ymestyn eu diddordeb a'u brwdfrydedd am lenyddiaeth.

Rhaff ddarllen Scarborough
(Scarborough's reading rope)



Golwg syml ar ddarllen
(The simple way of reading)



Model ddwbl Wyse a Hacking



Model	Syniad craidd	Cryfderau	Cyfyngiadau

Model	Cysylltiad gyda'r cwricwlwm

Ble mae dechrau?

t r a n d e p   s a t p i n

Ymyrraeth TRANDEP

Hybu datblygiad sgiliau llythrennedd cynnar yn y Gymraeg

Mae yn

- Strwythuredig
- Aml-synhwyraidd
- Datblygu bob is sgil ddysgu
- Yn cyfyngu ar y llwyth ar y cof i weithio ar 7/10 seiniau a llythrennau yn unig
- Hwyl
- Arwain at lwyddiant
- Adeiladu hyder.

Is-sgiliau dysgu

- Datblygu sgiliau cof clywedol a sgiliau gwrando
- Datblygu sgiliau gweledol
- Datblygu strategaethau cof tymor byr
- Ymarfer cyfuno'r sgiliau yma
- Sgiliau meddwl
- Datblygu ymresymu a rhesymeg
- Gwella agwedd a chymhelliant
- Gwella cyfnod canolbwyntio a thalu sylw
- Cymryd tro a gweithio gydag eraill
- Meistroli egwyddorion yr wyddor

Y sesiwn

- Sesiynau o 40 munud.
- Yn ddelfrydol tri sesiwn wythnosol
- Grwpiau rhwng 2-6 sy'n gweithio orau

Pob sesiwn i gynnwys gweithgareddau i ddatblygu:

- sgiliau meddwl;
- sgiliau cof clywedol;
- sgiliau cof gweledol;
- adnabod ac adeiladu synau i greu geiriau gyda llythrennau trandep
- darllen geiriau a brawddegau trandep
- sgiliau'r wyddor
- llawer o gemau cyffrous - dydy plant ddim yn sylweddoli eu bod yn dysgu wrth chwarae!

SATPIN Intervention

Boosting development of early literacy skills in English

It is

- Structured
- Multi-sensory
- Develops all the sub-skills of learning
- Limits the load on memory to working on 6/9 sounds and letters only
- Fun
- Leads to success
- Builds confidence.

Sub-skills of learning

- Develop auditory memory and listening skills
- Develop visual skills
- Develop short term memory strategies
- Practice combining these skills
- Thinking skills
- Develop reasoning and logic
- Improved attitude and motivation
- Improved attention span and concentration
- Turn taking and working with others
- Mastering the alphabetical principle.

The session

- Sessions of 40 minutes
- Ideally three sessions weekly
- Groups of between 2-6 work best

Every session should contain activities to develop:

- thinking skills;
- auditory memory skills;
- visual memory skills;
- recognising and building sounds to create words using satpin letters;
- reading satpin words and sentences
- alphabet skills
- lots of fun games - children don't realise they are learning while playing!

TRANDEP - SATPIN

[Y daith ddarllen (Cyngor Sir Ceredigion)]

Beth sydd ar gael?

[Dysgu Dwli Darllen]

[Arfer da ESTYN]

[EEF a Darllen]

Cynlluniau darllen

Pa gynlluniau sydd ar gael ar gyfer pob oedran?

Pa mor effeithiol yw cynlluniau darllen?

Beth yw'r heriau o ddefnyddio a dilyn cynlluniau darllen?

Rhannwch eich profiadau chi.

Beth yw'r gwahanol fathau o ddarllen er mwyn datblygu sgiliau darllen?

Gweithgareddau darllen a deall

Darllen par

Stori dosbarth

Darllen ar y cyd

Darllen unigol

Darllen grwp